

## HANES

Er bod gwinllannoedd yn gysylltiedig â hinsawdd fwy sych a chynhesach o bosib na'r hyn sy'n arferol yng Nghymru, mae dros ddwsin o winllannoedd yn y wlad ac mae'r nifer ar gynydd. Mae gwinllannoedd Cymru wedi'u gwasgaru ar hyd a lled y wlad, o Ynys Môn yn y gogledd orllewin i Sir Fynwy yn y de ddwyrain. Rhwng 1875 a 1914 honnir mai o Gymru y deuai'r unig win a gâi ei gynhyrchu'n fasnachol yn y DU.

Mae rheoliadau llym ar gyfer cynhyrchu gwin yn fasnachol a dylai unrhyw ddarpar dyfwyr geisio cyngor ynghylch y rhain. Mae pwyntiau cyswllt a gwefannau i roi cyngor a gwybodaeth bellach ar gael ar ddiwedd y nodyn technegol hwn.

## DEWIS SAFLE

Mae angen priddoedd dwfn, wedi'u draenio'n dda ar gyfer gwinllannoedd grawnwin (*Vitis vinifera*). Mae amrywiaeth eang o fathau o rawnwin ar gael, sy'n addas ar gyfer llawer o wahanol nodweddion pridd. Er hynny, ni fydd yr un ohonynt yn ffynnu mewn clai trwm. Dylid cynnal profion pridd i asesu'r angen am asesiadau maetholion a pH.

Bydd llethrau esmwyth sy'n wynebu'r de yn sicrhau fod y gwinwydd yn cael cymaint ag sy'n bosib o olau haul; mae hyn yn arbennig o wir ar ddechrau a diwedd y tymor.

Dylid osgoi pantiau rhew ac, os yw'n bosib, dylid darparu cysgod rhag y prifwynt.

Bydd angen ystyried dyddodiad hefyd - y cyfanswm a'r ffordd y mae wedi'i wasgaru drwy'r flwyddyn. Weithiau dyfynnir oddeutu 750mm o law fel y gorau posib, ond os bydd y glaw i gyd yn disgyn trwy fisoedd y gaeaf gyda sychder yn yr haf, wnaiff y gwinwydd ddim ffynnu. Yn groes i hyn, os bydd dros 1000mm o law y flwyddyn, bydd y risg o glefyd ffwng yn cynyddu'n sylweddol.

## AMRYWIAETHAU

Mae'r UE yn cyhoeddi rhestr (gweler Tabl 1) o'r gwahanol fathau o winwydd a ddsberthir fel rhai y gellir eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu yng Nghymru. Yn ddiweddar awgrymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ychwanegu Frühburgunder, Acolon, Cabernet Sauvignon a Merlot at y rhestr o amrywiaethau cynhyrchu sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer Cymru.

Ni fydd bob un o'r amrywiaethau hyn yn gwneud cystal â'i gilydd ym mhob safle. Wrth ddewis amrywiaethau i'ch gwinllan, mae'n hanfodol eich bod yn ystyried nodweddion eich safle (tymheredd, glawiad, lleithder, math o bridd, pH, ac ati) ochr yn ochr â gofynion y gwahanol fathau.

**Tabl 1: Mathau o winwydd a ddsbarthwyd ar gyfer cynhyrchu gwin yng Nghymru**

Mathau grawnwin gwyn		
Auxerrois	Kanzler	Regner
Bacchus	Madeleine Angeline 7672	Reichensteiner
Chardonnay	Madeleine Royale	Riesling
Chasselas / Gutedal	Madeleine sylvaner III	Ruländer / Pinot gris
Ehrenfelser	Müller-Thurgau / Rivaner	Scheurebe
Faberrebe	Optima	Schönburger
Findling	*Orion	Senator
Gutenborner	Ortega	*Seyval blanc / Seyve villard 5/276
Huxelrebe	*Perle of Alzey / Perle	Siegerrebe
Kerner	*Phoenix	White Elbling
Kernling	Pinot Blanc / Weissburgunder	Würzer
Mathau grawnwin du		
*Cascade	Pinot meunier / Wrotham pinot	*Rondo (GM6494/5)
Dornfelder	Pinot noir / Spatburgunder	*Triomphe
Dunkelfelder	Red Elbling	Zweigeltrebe / Blauer Zweigeltrebe
*Léon Millot	*Regent	

ds: Croesiadau rhyngrywiogaethol neu hybrids yw'r enwau â seren o'u blaen (\*). Ni chaniateir defnyddio'r rhain ar gyfer gwinoedd o ansawdd psr Ffynhonnell: Offeryn Statutol Cymreig 2001 Rhif 2193 (W.155) Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001

Mae tri dynodiad ansawdd ar gyfer labelu gwinoedd o Gymru. **Gwin i'r bwrdd** sydd â'r amodau llacaf a gellir defnyddio grawnwin o unrhyw le yn y DU. Rhaid i win sy'n cael ei ddsbarthu fel un **rhanbarthol** gael o leiaf 85% o'i rawnwin o Gymru. Mae'r amodau mwyaf llym yn gysylltiedig â gwinoedd sy'n cael eu gwerthu fel **Gwin o Ansawdd o Winllannoedd Cymru psr** (ystyr 'psr' yw wedi'i gynhyrchu mewn rhanbarth penodol). Ni chaniateir defnyddio'r mathau yn Nhabl 1 sydd wedi'u nodi â seren mewn Gwinoedd o Ansawdd a rhaid i 100% o'r grawnwin fod wedi'u tyfu yng Nghymru.

## PLANNU a SEFYDLU

Mae angen cynllunio'n ofalus i sefydlu gwinllan yn llwyddiannus. Mae cynhyrchu grawnwin yn weithgaredd sy'n defnyddio llawer iawn o lafur a dylid ystyried mynediad a llwybrau ar gyfer peiriannau cyn mynd ati i osod y winllan allan.

Fel arfer mae'r rhesi plannu'n wynebu'r gogledd - de er mwyn cael cymaint ag sy'n bosib o heulwen o'r ddwy ochr i'r trellis. Cymerwch ofal i sicrhau fod y planhigion yn hollol syth ac yn gwbl baralel i'w gilydd.

Yn y flwyddyn gyntaf, caiff planhigion eu cynnal gyda chansen bambw yn aml, ond bydd angen codi trellis ar gyfer yr hirdymor. Mae amrywiaeth o gynlluniau trellis gwahanol yn cael eu defnyddio; pennir pa un fydd y mwyaf defnyddiol ar gyfer unrhyw safle yn ôl y safle penodol a nodweddion amrywiaethol.

Fel arfer bydd planhigion yn cael eu cyflenwi fel stoc a gwreiddiau noeth. Mae angen i dyllau plannu fod yn ddigon mawr ar gyfer y system gwreiddiau'n lledaenu a dylai'r grafft fod tua 5cm uwchlaw lefel y ddaear. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd angen twll tua 40cm x 40cm x 40cm. Mae'n hawdd cael hyn gydag ebill bŵer. Gofalwch nad yw gwreiddiau'r winwydden yn sychu'n ormodol adeg plannu.

Mae canopi dail gwinllan yn fertigol ar y cyfan - yn erbyn strwythur y trellis. Er mwyn cael y cynnyrch mwyaf posib, mae angen i lawn hyd y canopi ddal cymaint ag sy'n bosib o haul. Felly, dylai'r pellter rhwng rhesi fod yn uchder disgwylidiedig y canopi o leiaf (tua 1.2m) er mwyn osgoi cysgodi. Yn ymarferol, mae rhesi'n cael eu gosod fel arfer fel bod lle i beiriannau. Mae llawer o drafod ynghylch faint o le sydd orau o fewn rhesi, a'r argymhellion yn amrywio rhwng 1m i 3m. Mae'n debyg fod 1.75m yn ganllaw da, ond dylid ceisio cyngor gan arbenigwr.

## PLÂU A CHLEFYDAU

Mae angen gwarchod gwinllannoedd rhag ceirw a chwingod. Gall adar fod yn broblem hefyd, yn arbennig wrth i'r ffwrwthau aeddfedu, ac mae'n bosib y bydd angen dyfeisiadau dychryn adar.

Mae clefydau ffwngaid, firaol a bacteriol yn her ddifrifol i rai sy'n tyfu gwinwydd. Mae arferion hylendid a rheoli cynydu da'n gallu helpu i leihau'r perygl o glefydau, ond mae'r mwyaf sy'n tyfu grawnwin yn fasnachol yn dilyn systemau chwistrellu proffylactig cyson i geisio atal achosion o glefydau. Mae hwn yn bwnc cymhleth a dylid ceisio cyngor proffesiynol. Mae gan Gymdeithas y Pridd safon organig ar gyfer gwinllannoedd.

## CYNAEAFU

Ni fydd gwinllan sydd wedi ei sefydlu o'r newydd yn cynhyrchu tan ei thrydedd flwyddyn. Ni fydd cnwd y cynhaeaf hwn yn ddim ond 50% - 75% o'r hyn a geir mewn blynyddoedd diweddarach. Yng Nghymru, bydd cynaeafu'n dechrau ganol - ddiwedd Medi fel arfer ac yn para tan ddiwedd Hydref – dechrau Tachwedd. Cynaeafir â llaw ac mae angen llawer i wneud y gwaith.

## CYNNYRCH

Fel gydag unrhyw gnwd, bydd pwysau'r cnwd yn dibynnu ar y gwahanol fathau a ddefnyddiwyd, priddoedd, yr hinsawdd a phwysau plâu a chlefydau. Hefyd, os dyfynnir pwysau'r cnwd mewn hectolitrau (1 hectolitr = 100 litr), bydd dulliau gwasgu a phrosesu'n effeithio ar y ffigur cynnyrch terfynol hefyd. Mae Cymdeithas Gwinllannoedd y DU (UKVA) yn nodi mai 19.0 hectolitr yr hectar yw'r cynnyrch blynyddol cyfartalog ar gyfer gwinllannoedd Cymru a Lloegr am y 5 mlynedd hyd 2005.

## COSTAU a REFENIW

O dderbyn yr ystod eang o newidynnau (safle, math, dwysedd plannu, tywydd, ac ati) mae'n anodd rhagweld costau ac adenillion ar gyfer gwinllan newydd. Mae'r canlynol yn rhoi syniad bras iawn gyda chostau sefydlu wedi'u rhannu dros 10 mlynedd. Er bod yr adenillion posib yn edrych yn ddeniadol o bosib, mae'r risgiau'n sylweddol hefyd. Fel gydag unrhyw arallgyfeirio, dylech gynnal astudiaeth ddichonolrwydd drwyadl cyn gwneud unrhyw newidiadau.

Tabl 2: Costau a refeniw dangosol fesul hectar o winllannoedd (gan ddefnyddio gwneuthurwr gwin contract)

	Eitem	£/ha	Isel	Uchel
Costau	Sefydlu (bl. 1 a 2) gan gynnwys deunyddiau a chynnal a chadw	£24,000	£21,000	£30,000
	Rheoli, cynnal a chadw, cynaeafu blynyddol cyson	£7,250	£6,250	£9,000
	Gwneud gwin a photelu (amrywio o £1.50 i >£4.00 / litr yn dibynnu ar y math o win)	£4,275	£2,850	£7,600
	Cyfanswm costau cynhyrchu blynyddol (dros 10 mlynedd)	£13,925	£11,200	£19,600
Refeniw	2,533 x 70cl potel yn amrywio o £7.50 i £15.00 y botel 75cl	£25,333	£19,000	£38,000
Ffin		£11,408	£7,800	£18,400

DS: Costau ychwanegol i'w hystyried - labelu, marchnata, dosbarthu

## PWYNTIAU CYSWLLT

Cymdeithas Gwinllannoedd y DU (UKVA) – [www.englishwineproducers.com](http://www.englishwineproducers.com)

Vine and Wine Ltd – cyflenwyr gwinwydd a chyngor, â phrofiad yng Nghymru – [www.vineandwine.co.uk](http://www.vineandwine.co.uk)

## CYFEIRNODAU

Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 -

<http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2001/20012193e.htm#n8>

Cyngor Cymdeithas y Pridd ar gynhyrchu organig – [www.soilassociation.org](http://www.soilassociation.org)

Evch i [www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk) am fwy o ddiwedd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â CALU – e-bost: [calu@bangor.ac.uk](mailto:calu@bangor.ac.uk) ffôn: 01248 680450.

Er i ni wneud pob ymdrech i sicrhau fod y wybodaeth yn y daflen yma'n gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys.